





CANLLAWIAU ARFERION DA AR  
GYFRANOGAETH PLANT A PHOBL IFANC

2

DADLAU'R ACHOS





Ysgrifennwyd gan Pat Smail  
Mewn cydgysylltiad â: Anna Skeels a Mererid Lewis,  
Uned Cyfranogaeth a Jane Peffers, Prosiect Cyfranogi LLCC



## Beth fydd y canllaw hwn yn ei ddweud wrthyf?

Mae'r canllaw hwn yn amlinellu'r achos o blaid cyfranogaeth plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau a llunio polisi yng Nghymru. Mae'n edrych ar y cyd-destun cyfr eithiol a Chymreig ac yn amlinellu'r manteision i unigolion, cymunedau a sefydliadau.

### **Sut mae dadlau'r achos o blaid cyfranogaeth plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau a llunio polisi mewn sefydliad**

Gellir dadlau'r achos mewn dwy brif ffordd. Yn gyntaf, gan ddefnyddio'r fframwaith cyfreithiol rhyngwladol hawliau dynol, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Erthygl 12. Ymdrin â chyfranogi drwy 'ddull seiliedig ar hawliau' a wneir yn hyn o beth. Yn ail, mae modd dadlau'r achos drwy ddisgrifio'r manteision posibl i blant a phobl ifanc unigol, i gymunedau ac i sefydliadau.

Mae'n bwysig eich bod yn casglu tystiolaeth o'r manteision yn lleol eich hun wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Gall y rhain gynnwys manteision uniongyrchol i blant a phobl ifanc a manteision anuniongyrchol drwy well gwasanaethau lleol, a'r rheini fwy abl i ymateb. Gall fod manteision amlwg hefyd i'r sefydliad ar ffurf gwell targedu, mynediad at wasanaethau lleol a defnydd ohonynt.

Hefyd, mae ffynonellau cyllido neu gyrff cyllido, fel Cymorth a'r Gronfa Loteri Fawr, yn gofyn yn gynyddol am dystiolaeth fod y buddiolwyr yn cyfrannu tuag at waith cynllunio, datblygu, gweithredu a gwerthuso prosiect cyn y byddant yn darparu cyllid.

### **Sut mae dadlau'r achos – defnyddio'r fframwaith cyfreithiol a chyd-destun Cymru**

Ym mis Tachwedd 1989, mabwysiadodd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn yn unfrydol. Ym mis Rhagfyr 1991, ymrwymodd llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r Confensiwn (ei 'gadarnhau'). Yn unol â hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo a chefnogi cyfranogaeth plant a phobl ifanc ac i weithredu hawl plant a phobl ifanc i gyfranogi fel y nodwyd yn Erthygl 12 drwy fabwysiadu'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn yn ffurfiol (**Gweler Blwch 1**).

Mae'r hawl i gyfranogi yn galluogi plant a phobl ifanc i hawlio pob hawl arall sy'n cael ei mynegi yn y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn. Dyma'r 'porth' sy'n eu galluogi i gyrchu at iechyd, addysg, hamdden a hawliau eraill. Mewn geiriau eraill, mae hawl plant a phobl ifanc i gymryd rhan ym mhob mater sy'n effeithio arnynt yn *gyfrwng* iddynt gael yr holl hawliau eraill sy'n cael eu mynegi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.



Bob pum mlynedd, rhaid i'r Deyrnas Unedig roi adroddiad i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn adolygu gweithrediad y Confensiwn. Mae adroddiad nesaf llywodraeth y DU i fod i gael ei gyflwyno ym mis Gorffennaf 2007.

### Blwch 1: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthygl 12

Dywed erthygl 12 o'r confensiwn: *Mae gan blant hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.*

Mae'r Ddraig Ffynci, y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru, wedi datblygu ffilm animeiddiedig fer hynod o effeithiol i bobl ifanc am stori hawliau plant, y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn a chyfranogi. Enw'r ffilm yw *Ein Hawliau Ni, Ein Stori Ni*. Mae modd gweld y stori ar y wefan. [www.funkydragon.org](http://www.funkydragon.org)

Mae hanes cymharol hir i gyfranogaeth pobl ifanc mewn gwaith datblygu gwasanaethau a pholisi yng Nghymru, yn enwedig yn y sector gwirfoddol. Mae'r *Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid i Gymru* y cytunwyd arno yn 1992 yn cefnogi egwyddor cyfranogaeth pobl ifanc yn benodol. Mae'r *Strategaeth Gwaith Ieuenctid i Gymru a'r Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid i Gymru* wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar ond maent yn dal i gynnwys ymrwymiad i gyfranogi fel elfen annatod o bolisi ac ymarfer gwaith ieuenctid.

Datblygiad polisi pwysig arall fu datblygu Papur Gwyn yr UE, *A New Impetus for European Youth*, (2002) sy'n rhoi pwyslais cryf ar yr angen am gyfranogaeth pobl ifanc.

O ganlyniad i ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthygl 12, mae strwythurau wedi cael eu sefydlu ac mae'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud wedi cynyddu. Cymru oedd y gyntaf o wledydd y DU i gael Comisiynydd Plant, a sefydlwyd drwy Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd ystyried y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn yn ei waith (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2001).

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cefnogi sefydlu'r Ddraig Ffyncu (y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru), Consortiwm Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru, yr Uned Cyfranogaeth a Phrosiect Cyfranogi Llywodraeth Cynulliad Cymru (I gael rhagor o fanylion gweler **Canllaw 1: Cyflwyniad i Gyfranogaeth**).



Mae deddfwriaeth, polisi ac ymarfer yn hyrwyddo cyfranogaeth plant a phobl ifanc yn gynyddol (**gweler Crowley A. a Croke R (Gol.) 2006**). Mae llawer o swyddi newydd yn cael eu sefydlu ar draws Cymru hefyd. Mae'r Consortiwm Cyfranogaeth wedi sefydlu Rhwydwaith Ymarferwyr Cyfranogaeth i Gymru, wedi'i leoli yn Plant yng Nghymru, [www.childreninwales.org.uk](http://www.childreninwales.org.uk) i gefnogi unrhyw weithwyr sy'n ymwneud â neu sydd â diddordeb mewn datblygu'r agenda gyfranogi mewn gwahanol ardaloedd a sectorau ar draws Cymru. I gael rhagor o fanylion gweler **Canllaw 9: Adnoddau a Chymorth**.

## Sut mae dadlau'r achos – disgrifio'r manteision

### Manteision i'r unigolyn

Mae cyfranogi yn rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc ddatblygu'n bersonol, yn gymdeithasol ac yn wleidyddol. Gall cyfranogi gynnig profiad ymarferol a'r cyfle i ddysgu sut mae arfer cyfrifoldeb.

Mae cyfranogaeth plant a phobl ifanc yn dod â nifer o fanteision i'r plant unigol dan sylw (**Gweler Blwch 2**). Mae'r rhain hefyd yn cynnwys:

- Gwelliannau uniongyrchol yn eu bywydau a'u cyfleoedd bywyd.
- Y posibilrwydd o amddiffyn eu hunain a herio camddefnydd ar eu hawliau, un ai'n uniongyrchol neu drwy roi gwybod i oedolyn cyfrifol.
- Mwy o hunanhyder a hunan-barch.
- Cyfle i fagu ac ehangu eu sgiliau, yn cynnwys datrys problemau, negodi a sgiliau cyfathrebu.
- Ymglyfarwyddo â phrosesau grwp a phrosesau democrataidd, yn cynnwys deall gwahanol safbwyntiau, yr angen am gyfaddawd ac ymdeimlad o gyfrifoldeb am benderfyniadau grwp.
- Ymdeimlad o bwrpas a chymhwysedd yn eu bywydau eu hunain – cred y gallant gael effaith gadarnhaol ar eu bywydau eu hunain ac ar fywydau eu cyfoedion, eu teulu a'r gymuned.
- Cyfle i ddysgu ac ymarfer sgiliau dinasyddiaeth gyfrifol a gweithgar.

### Blwch 2: Manteision i Blant a Phobl Ifanc

Dyma'r manteision i'r unigolyn a restrwyd gan y Ddraig Ffyni: y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru (2002):

- Llais a dylanwad.
  - Gwasanaethau sy'n cael eu diweddarau.
  - Hunanddatblygiad.
  - Addysg gymdeithasol a gwleidyddol.
  - Rydym yn dod yn bobl sy'n creu, nid defnyddwyr.
  - Cyfranogi yn y gymdeithas ehangach.
  - Democratiaeth.
- (Adroddiad Blynyddol y Ddraig Ffyni, 2002)



## Manteision i sefydliadau

Mae cyfranogaeth plant a phobl ifanc yn dod â manteision i sefydliadau gan ei bod yn:

- Gwella perthnasoedd
- Gwneud sefydliadau'n fwy perthnasol i blant
- Gwella gallu sefydliadau i gyflawni canlyniadau
- Helpu sefydliadau i dargedu cyllid yn effeithiol
- Cynyddu hygredd ac enw da sefydliadau
- Cynnig amrywiaeth ehangach o bersectifau i sefydliadau
- Gwella systemau sefydliadol
- Helpu i ddatblygu gallu a chynaliadwyedd o fewn sefydliad.

Mae manteision i sefydliadau yn cael eu rhestru hefyd gan y Ddraig Ffyni, y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru (2002):

- Gwasanaethau a pholisïau sy'n cael eu cynllunio, eu darparu a'u gwerthuso ar sail anghenion cydnabyddedig plant a phobl ifanc
- Gwasanaethau sy'n fwy effeithiol
- Gwasanaethau sydd â mwy o hygredd ymysg pobl ifanc ac sy'n ein diogelu
- Byddwch yn cwrdd â thargedau a disgwyliadau'r llywodraeth/y cynulliad.
- Byddwch hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad personol, cymdeithasol a gwleidyddol plant a phobl ifanc yng Nghymru.

## Manteision i'r gymuned

Mae cyfranogi yn grymuso plant a phobl ifanc fel aelodau o gymdeithas sifil a dinasyddion gweithredol. Mae cyfranogi yn cryfhau gallu plant i ddal mudiadau, sefydliadau a llywodraethau i gyfrif. Mae'n galluogi plant i chwarae rhan fyw mewn cymdeithas sifil ac i wneud iawn am y ffaith eu bod yn cael eu hallgau o brosesau gwleidyddol ffurfiol. Mae'n gwneud plant a materion plant yn fwy gwladwy ac yn sicrhau bod mwy o bwysau'n cael ei roi iddynt mewn agendâu economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol. Drwy gynyddu'r atebolrwydd i blant, mae'n gwneud y gofod democrataidd yn fwy ac yn annog llywodraethu da.

## Sut mae casglu eich tystiolaeth eich hun

Rydym yn datblygu'r achos o blaid cyfranogaeth plant a phobl ifanc yng Nghymru yn barhaus. Mae'r Consortiwm Cyfranogaeth wedi datblygu *pecyn asesu effeithiau* (Gweler **Canllaw 8: Monitro, Gwerthuso ac Archwilio**) y gall sefydliadau a phlant a phobl ifanc ei ddefnyddio i gasglu eu gwybodaeth *eu hunain* am fanteision ac effeithiau cyfranogi. Mae'r pecyn hwn wedi cael ei dreialu ac mae'n cael ei ddatblygu ymhellach ar hyn o bryd gan y Consortiwm ar gyfer ail gyfnod treialu gydag asiantaethau a sefydliadau. Mae'n edrych ar effeithiau cyfranogi mewn tri maes 'craidd': ar blant a phobl ifanc, ar y sefydliad ac ar y gymuned.



## ADNODDAU

*I gael eich cyfeirio at adnoddau cyffredinol yn ymwneud â Chyfranogi gweler **Canllaw 9: Adnoddau a Chymorth.***

Aspinwall, T. Crowley, A. and Larkins, C. 2003, *Listen Up! Children and Young People Talk about their Rights in Education.* Achub y Plant

Crowley, A. and Croke, R (Eds.) 2006, *Righting the Wrongs: The Reality of Children's Rights in Wales Pennod 3 Participation.* Achub y Plant

Crowley, A. and Vuillaume, C. 2002, *Listen Up!: Children and Young People Talk About Poverty.* Achub y Plant

Comisiynydd Plant Cymru 2003, *Adroddiad a Chyfrifon*

Y Ddraig Ffyni 2002, *Adroddiad Blynyddol.* [www.funkydragon.org](http://www.funkydragon.org)

Llywodraeth Cynulliad Cymru 2000. *Ymestyn Hawliau Llywodraeth Cynulliad Cymru*

Llywodraeth Cynulliad Cymru 2001, *Datganiad i'r Wasg Llywodraeth Cynulliad Cymru 26ain Mehefin 2001.* [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)

Youth Work Curriculum Statement for Wales [www.cwvys.org.uk](http://www.cwvys.org.uk)

Youth Service Strategy For Wales [www.cwvys.org.uk](http://www.cwvys.org.uk)